Y Pwyllgor Craffu - Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau

Adroddiad Blynyddol

2022 - 2023

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

Adran	Eitem	Tudalen
	Rhagair gan y Cadeirydd	2
1	Cyflwyniad	3
2	Craffu cyn Gwneud Penderfyniadau	3
3	Cylchoedd Gwaith y Pwyllgorau Craffu	3
4	Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2022/23	3
5	Gweithgarwch Craffu Arall	5
6	Heriau	6
7	Gwaith yn y Dyfodol	6
8	Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu	6
9	Presenoldeb	7

Rhagair gan y Cadeirydd

Croeso i'r adroddiad blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau [Polisi ac Adnoddau gynt] ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2022/2023. Fel Cadeirydd, rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn i chi yn manylu ar y gwaith y mae'r pwyllgor wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022 penodwyd nifer o aelodau newydd i wasanaethu ar y Pwyllgor. O ganlyniad i'r etholiadau, cynhaliwyd seminarau sefydlu a oedd yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor Sir ar gyfer yr holl aelodau ac felly ni chynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor tan fis Hydref 2023.

Eto, yn ystod y flwyddyn, roeddem yn ddarostyngedig i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020 gan ganiatáu i'r Awdurdod wneud trefniadau i gynnal cyfarfodydd o bell. Ar ôl bod yn defnyddio meddalwedd fideo-gynadledda o bell ers 2020, roedd rhai o aelodau'r Cyngor yn gyfarwydd iawn â chymryd rhan fel hyn, sydd wedi caniatáu inni barhau i fonitro safonau ac adroddiadau rheolaidd, yn ogystal â pholisïau a strategaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan y Cyngor Sir.

Gan fod coronafeirws yn dal i fod yn ein plith, parhaodd y Pwyllgor â'i rôl o fonitro absenoldeb salwch.

Edrychaf ymlaen unwaith eto at yr her o gadeirio'r Pwyllgor hwn yn y flwyddyn sydd i ddod, a chyda chymorth fy Is-gadeirydd a gweddill y Pwyllgor gobeithio y cawn effaith gadarnhaol ar y canlyniadau ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag uwch-reolwyr a staff y Cyngor i sicrhau bod y flwyddyn sydd o'n blaenau yn un gynhyrchiol.

Un o agweddau mwyaf cadarnhaol y flwyddyn ddiwethaf fu'r cynnydd parhaus yn nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n cysylltu i wylio cyfarfodydd craffu. Er bydd y Cyngor yn parhau i ddychwelyd at ddefnyddio dull mwy hybrid o gynnal cyfarfodydd, gyda rhai aelodau yn swyddfeydd y Cyngor ac eraill yn defnyddio technoleg o'u cartref neu leoliad gwaith, rwy'n mawr obeithio bydd y rhyngweithio rhyngom fel cynghorwyr a'r cyhoedd yn parhau.

Hoffwn ddiolch hefyd i holl aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2022/23.

Y Cynghorydd Giles Morgan
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau

1. Cyflwyniad

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol*."

Prif nod yr adroddiad yw pwysleisio'r gwaith sydd wedi'i wneud gan y Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn ystod 2022/23. Mae'n amlinellu gwaith posibl y Pwyllgor yn y dyfodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd y ddogfen yn hwyluso trafodaethau am eitemau eraill a allai gael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Giles Morgan ac mae'n cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth i'r Panel gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn ystod blwyddyn y Cyngor 2022/23. Mae'n caniatáu i Aelodau ystyried y cyflawniadau yn ystod y flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu.

2. Craffu cyn Gwneud Penderfyniadau

Mae gan y broses graffu rôl allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd o ran proses gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau allanol.
Er mwyn i Bwyllgorau Craffu dderbyn mwy o berchenogaeth ar eu Blaengynlluniau Gwaith, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am iddynt ddod ger eu bron. Yn unol â'r broses arferol, bydd hefyd modd i Bwyllgorau nodi eu pynciau eu hunain a gall y Cabinet barhau i wahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad sydd ar y gweill.

3. Cylchoedd Gwaith y Pwyllgorau Craffu

Diweddarwyd cylchoedd gwaith y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2023 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am drosolwg a chraffu ar bortffolios penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol. Atodir cylch gwaith y Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol a Adnoddau yn Atodiad A.

4. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2022/23

4.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu 4 cyfarfod ym Mlwyddyn y Cyngor 2022/23.

4.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn datblygu ei Flaenraglen Waith ei hun a chafodd y Flaenraglen ar gyfer 2022/23 ei chadarnhau gan y Pwyllgor ar 19 Hydref 2022 yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Roedd y Flaenraglen Waith yn seiliedig yn bennaf ar y meysydd allweddol a nodwyd fel amcanion yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018-23 ynghyd ag eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad a chyllideb, adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu a cheisiadau penodol gan y pwyllgor craffu ei hun. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny.

Drwy ddatblygu'r cysyniad o Flaenraglen Waith a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob pwyllgor craffu benderfynu ar ei agenda waith ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau. Sefydlodd y Ddeddf Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau bod y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn atebol yn ddemocrataidd, roedd gofyniad ar Gynghorau i ddynodi pwyllgor trosolwg a chraffu i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel Pwyllgor Craffu dynodedig y Cyngor i'r perwyl hwn, mae'r Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau wedi parhau â'i rôl o ran craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i ddal i gyfrif ynghylch ei berfformiad o ran cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant Lleol. Yn hyn o beth cafodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rheolaidd.

Bydd yr adrannau canlynol yn rhoi cipolwg ar brif feysydd gwaith y Pwyllgor.

4.3 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol am y cyllidebau cyfalaf a refeniw adrannol a chorfforaethol. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.
Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 i 2025/26. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26.

Derbyniodd yr Aelodau'r adroddiad a chymeradwyo'r Crynhoad Taliadau. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd 2023/24 - 2027/28.

Canlyniad:
Cymeradwyodd y Cyngor Sir y Strategaeth Cyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd.

4.4 Adroddiad ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth

Cafodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf a oedd yn nodi'r gweithgareddau a oedd yn rhan o Swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys, yn unol â gofynion y Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 2 Mawrth 2022.

4.5 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2020/21

Ym mis Hydref 2022, bu i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft Cyngor Sir Caerfyrddin 2020/21 ynghyd â'r Amcan Llesiant perthnasol ac adroddiadau manwl sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

4.6 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Ym mis Hydref a mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023, bu i'r Pwyllgor, fel y pwyllgor craffu dynodedig a benodwyd i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ystyried cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

4.7 Monitro Absenoldeb Salwch

Ym mis Rhagfyr 2022, bu i'r Pwyllgor ystyried adroddiad Monitro Absenoldeb Salwch hanner blwyddyn ar gyfer 2022/23 a oedd yn manylu ar ddata absenoldeb salwch adrannau ac yn cynnwys data monitro absenoldeb salwch ynghyd â throsolwg o'r cymorth llesiant gweithwyr a ddarparwyd.

4.8 Rhaglen Drawsnewid y Cyngor

Ym mis Rhagfyr 2022, cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn amlinellu gweledigaeth/achos busnes ar gyfer cam nesaf rhaglen trawsnewid a newid y Cyngor, a fydd yn cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Drawsnewid.

5. Gweithgarwch Craffu Arall

5.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen yn ystod 2022/23.

5.2 Ymweliadau Safle

Nid oedd y Pwyllgor wedi cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod 2022/23.

5.3 Sesiynau Datblygu

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu/seminarau canlynol i'r aelodau yn ystod 2022/23:

- Sesiwn Datblygu Rheoli Presenoldeb;

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2023/24 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

6. Heriau

Wrth ymgymryd â'i waith mae'r Pwyllgor wedi wynebu sawl her, mae'r rhain yn cynnwys eitemau na chafwyd adroddiadau yn eu cylch yn unol â'r Flaenraglen Waith a'r oedi wrth dderbyn adroddiadau ariannol, er bod hyn bellach yn cael sylw yn unol â'r hyn a ganiateir gan y gweithdrefnau ariannol.

7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei nodi yn ei Flaenraglen Waith a bydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r flwyddyn nesaf.

8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae hyn yn cynnwys:

- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu;
- Rhoi cyngor a chefnogi'r gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i ganllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli'r gwaith o gydgysylltu a datblygu blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydgysylltu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweithredu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, awdurdodi adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Rheoli rhaglen datblygu aelodau'r Pwyllgorau Craffu
- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys rhaglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu
I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

9. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn ystod y flwyddyn 2022/23 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 4 cyfarfod hybrid (Neuadd y Sir, Caerfyrddin a Zoom) rhwng mis Mai 2022 a mis Ebrill 2023.

Aelod y Pwyllgor Craffu	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4 cyfarfod posibl**	**%**
Y Cynghorydd K. Broom	4	100%
Y Cynghorydd L. Davies	4	100%
Y Cynghorydd T. Davies	3	75%
Y Cynghorydd A. Evans	3	75%
Y Cynghorydd H.A.L. Evans	2	50%
Y Cynghorydd A.D. Harries	1	25%
Y Cynghorydd J. Hart hyd at 19/10/22	0	0
Y Cynghorydd R. James	4	100%
Y Cynghorydd D. Jones	4	100%
Y Cynghorydd M.J.A. Lewis	3	75%
Y Cynghorydd K. Madge	4	100%
Y Cynghorydd A.G. Morgan	4	100%
Y Cynghorydd D. Nicholas	1	25%
Dirprwyon	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**	
Y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths	1	
Y Cynghorydd H. Jones	1	
Y Cynghorydd D.E. Williams	2	
Aelodau'r Cabinet	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**	
Y Cynghorydd P.M. Hughes	2	
Y Cynghorydd A. Lenny	3	
Y Cynghorydd D. Price	1	

10. Rhestr Termau

CIPFA - Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
BGC – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
TIC - Trawsnewid i Wneud Cynnydd

Atodiad 'A'

Y Pwyllgor Craffu - Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau

TEITL	AELODAU	CYFRIFOLDEBAU
Pwyllgor Craffu - Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau	13 aelod	Mae'r Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet a phortffolios canlynol y Cabinet a'u priod feysydd gwasanaeth: • Arweinydd • Adnoddau • Sefydliad a Gweithlu

Arweinydd – Y Cynghorydd Darren Price:

Cadeirydd y Cabinet	Cysylltu ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill
Cysylltiadau â Llywodraeth Cymru	Y Gwasanaethau Cyfieithu
Cysylltiadau â Llywodraeth Leol	Cyflawni'r Fargen Ddinesig
Cynrychioli'r Cyngor - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Cyfathrebu
Cynrychioli'r Cyngor ar Ddinas-ranbarth Bae Abertawe	Pennu Portffolios y Cabinet
Marchnata a'r Cyfryngau	Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Penodi Aelodau'r Cabinet	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
Cyswllt â'r Prif Weithredwr	Partneriaeth - Gwasanaeth Rhanbarthol

Aelod Cabinet dros Adnoddau - Y Cynghorydd Alun Lenny:

Strategaeth Gyllid a'r Gyllideb	Caffael a Fframweithiau
Rhaglen Gyfalaf	Cyflawni Arbedion
Rheoli Asedau / Eiddo	Gwasanaethau Ariannol
Comisiynu a Chaffael	Budd i'r Gymuned
Rheoli Risg a Chynllunio Risg	Y Dreth Gyngor
Budd-daliadau Tai	Ardrethi Annomestig Cenedlaethol
Refeniw	Cyllid Strategol (Prosiectau Corfforaethol)
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	

Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu - Y Cynghorydd Philip Hughes:

Canolfannau Cyswllt a'r Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid	Gweithio ystwyth
Cydraddoldeb – polisi a'r gweithlu	Arweinydd Polisi Iechyd a Diogelwch
Adnoddau Dynol a Chynllunio'r Gweithlu	Cyflawni Blaenoriaethau'n Gorfforaethol
Rheoli Perfformiad	Gwasanaethau Etholiadol
Busnes a Gwella Gwasanaethau	Crwneriaid
Archwilio Cymru	Cofrestryddion (Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau)
Hyfforddiant – Dysgu a Datblygu	Ymgysylltu ag Undebau Llafur
TGCh Darparu Gwasanaethau Digidol	Datblygu Sgiliau
T.I.C. (Trawsnewid i Wneud Cynnydd)	Cynllunio Gweithlu Rhanbarthol
Cyswllt â'r heddlu	Rhaglen Sgiliau a Thalentau (Y Fargen Ddinesig)

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015	Amrywiaeth y Gweithlu
Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog	Arweinyddiaeth Gymunedol
Y Rhaglawiaeth	Canolfannau Cymunedol
Cydlyniant Cymunedol a Mynd i'r Afael ag Eithafiaeth	Hyrwyddwr Gwrth-Gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol
Gwerthoedd Craidd	Iechyd Galwedigaethol
Llesiant Gweithwyr	Cwynion
Dyletswydd economaidd-gymdeithasol	

Cylch Gorchwyl Cyffredinol ar gyfer pob Pwyllgor Craffu

Mewn perthynas â materion sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau thematig a chyfrifoldebau eraill:

(1) Datblygu a chyhoeddi Blaenraglen Waith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried yn ystod blwyddyn y Cyngor; gan ystyried Blaenraglen Waith y Cyngor.

(2) Adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd gan y Cabinet a/neu'r Cyngor mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau a llunio adroddiadau i'r Cyngor a/neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau.

(3) Arfer yr hawl i alw penderfyniadau i mewn fel y nodir ym mharagraff 6.7 yr Erthygl hon.

(4) Monitro perfformiad y Cabinet/Awdurdod wrth gyflawni targedau ac amcanion allweddol drwy dderbyn adroddiadau monitro perfformiad rheolaidd.

(5) Craffu ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau busnes gwasanaeth gan gynnwys monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu a thargedau penodol.

(6) Monitro cynnydd o ran cynnal adolygiadau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan gynnwys argymell opsiynau gwasanaeth/targedau perfformiad yn y dyfodol i'r Cabinet/Cyngor a monitro cynlluniau gweithredu dilynol.

(7) Cynnal adolygiadau ar gais y Cabinet mewn ymateb i faterion a ddaeth i'r amlwg yn yr asesiad risg blynyddol.

(8) Cymryd rhan yn y gwaith o ystyried proses pennu cyllideb yr Awdurdod.

(9) Cyfrannu at broses adolygu a datblygu polisi yr Awdurdod gan gynnwys cynnig gwelliannau i'r Cabinet a/neu'r Cyngor fel sy'n briodol. Derbyn ceisiadau gan Aelodau'r Cabinet/Cabinet i gyfrannu at broses gwneud penderfyniadau'r weithrediaeth drwy gynnal adolygiadau o bolisïau cyfredol/darpariaeth gwasanaethau a llunio barn ar bolisïau neu ddeddfwriaeth newydd arfaethedig.

(10) Cynnal ymchwil annibynnol drwy Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, Ymchwiliadau Undydd, ac ati, gyda'r nod o gefnogi gwelliannau o ran cyflawni gwasanaethau a chyfrannu at ddatblygiad ac adolygiadau polisi'r Cyngor.

(11) Cynnal ymchwil annibynnol pellach gyda'r nod o gefnogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau (hefyd i gynnal ceisiadau a dderbynnir gan y Cabinet yn y maes hwn). Diweddarwyd yn nghyfarfod y Cyngor 22/10/2020

(12) Cyfeirio materion at y Cabinet/Pwyllgorau Craffu eraill i'w hystyried (gan gefnogi hyn gydag adroddiadau a chynigion sy'n seiliedig ar dystiolaeth).

(13) Ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion mewn perthynas â'r cylch gwaith penodol.

(14) Holi aelodau'r Cabinet a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion a phartneriaid am eu barn ar faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal.

(15) Paratoi Adroddiad Blynyddol yn rhoi cyfrif o weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Cylch Gorchwyl Ychwanegol Penodol ar gyfer y Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau

Os bydd materion yn dod o dan gylch gwaith mwy nag un Pwyllgor Craffu, dylid penderfynu ar y mater ar ôl i'r Cadeiryddion priodol ystyried adroddiadau a chyflwyniadau'r Pwyllgorau, os yw'r Prif Weithredwr o'r farn bod hyn yn briodol.

Datrys unrhyw faterion sy'n destun anghydfod rhwng y Pwyllgorau Craffu.

Cyfrannu at broses datblygu ac adolygu polisi'r Awdurdod mewn perthynas â materion corfforaethol a thrawsbynciol.

Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a monitro strategaethau Corfforaethol a Chymunedol.

Craffu ar Gynllun Gwella'r Awdurdod gan gynnwys targedau perfformiad penodedig.

Craffu ar berfformiad cyffredinol y Cyngor a'i fonitro yn erbyn cyfres o dargedau ac amcanion allweddol drwy dderbyn adroddiadau monitro perfformiad rheolaidd.

Ystyried a chyfrannu at ymateb y Cyngor i adolygiadau gan gynnwys cynnal adolygiadau trawsbynciol a chraffu ar gynnydd a materion sy'n codi o asesiad risg blynyddol. (Sylwer bod y swyddogaeth graffu yn cynnig y drafodaeth a'r ddadl y mae gwelliant yn dibynnu arnynt a bod y swyddogaeth archwilio yn cynnig sicrwydd ynghylch addasrwydd a gweithrediad systemau a phrosesau'r Cyngor).

Monitro'r ffordd y caiff rhaglen effeithlonrwydd y Cyngor ei darparu.

Craffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin (yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.